Ysgol Gyfun Gymunedol

Penweddig

Pecyn gwybodaeth

Derbynnydd

Gweinyddiaeth a Threfniadaeth Lefel 2

(32.5awr yr wythnos, adeg y tymor yn unig, cyfnod penodol)

Cyflog Graddfa 4

(£26,016 pro-rata)

Dyddiad cau: 22 Tachwedd 2026

Cymreictod

Parch

Ymdrech

SWYDD DERBYNNYDD (GWEINYDDIAETH A THREFNIADAETH L2)

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Safon Uwch sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol a hynny mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Cydnabuwyd hyn yn ystod Arolwg Estyn llwyddiannus diweddar yr ysgol yn Hydref 2024:

"Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol." (Estyn Hydref 2024)

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref brifysgol fywiog Aberystwyth. Ymfalchïwn yng nghyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf sydd gennym ym Mhenweddig. Am flas o'r ysgol ewch i ymweld â gwefan yr ysgol neu wylio ein fideo hyrwyddo.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk .

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 22 Tachwedd 2026.

Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef yr wythnos yn cychwyn 23 Tachwedd 2026.

Yn gywir

Clive Williams

Pennaeth

DISGRIFIAD SWYDD

DERBYNNYDD (32.5 awr yr wythnos, adeg tymor yn unig, cyfnod penodol)

CEFNDIR

Mae'r ysgol yn chwilio am berson brwdfrydig ac egnïol i ymgymryd â'r swydd uchod yn nerbynfa'r ysgol, adeg tymor yn unig yn ystod secondiad o 9 mis yn cychwyn ar y 4ydd o Ionawr 2027 (neu cyn gynted â phosib ar ôl hynny). Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan weithredol i hyrwyddo nodau ac amcanion yr ysgol o Gymreictod, Parch ac Ymdrech.

TASGAU PENODOL

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gynorthwyo gyda'r dyletswyddau canlynol:

- Croesawu a chofnodi ymwelwyr i'r ysgol
- Ateb a chymryd negeseuon/throsglwyddo galwadau ffôn
- Cynorthwyo/ymateb i ymholiadau wrth y dderbynfa
- Cynorthwyo gyda'r gwaith dyblygu
- Dosbarthu post i aelodau staff yn eu tyllau post
- Bod yn gyswllt rhwng y cymhorthydd cyntaf a'r ystafell feddygol gan hysbysu'r Uwch Dîm Arwain o anafiadau/salwch
- Cynorthwyo gyda'r broses o gynhyrchu adroddiadau disgyblion ac adroddiadau'r ysgol
- Cymorth i'r Rheolwr Busnes gyda'r gwaith o drefnu teithiau a digwyddiadau'r ysgol, a phrosesau cyllidol megis codi archebion ar Procurement a mewnbynnu anfonebau ar Financials
- Cynorthwyo/cysgodi'r Swyddog Presenoldeb gyda galwadau dydd cyntaf
- Cynorthwyo gyda gwaith gweinyddol Arweinydd Cynnydd & Lles Bl.7 a Chyfnod Allweddol 3
- Cymorth gweinyddol yn ôl cais rhesymol y Pennaeth a'r Rheolwr Busnes

DISGRIFIAD SWYDD GENERIG Gweinyddiaeth a Threfnidiaeth Lefel 2

O dan gyfarwyddyd/arweiniad uwch aelodau o'r staff: darparu cefnogaeth weinyddol/gyllidol gyffredinol i'r ysgol.

Trefnu

- Ymgymryd â dyletswyddau croesawu, ateb ymholiadau cyffredin dros y ffôn neu wyneb yn wyneb â phobl, a threfnu bod ymwelwyr yn arwyddo
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau cymorth cyntaf/lles y disgyblion, gwarchod disgyblion sâl, cydlynu gyda rhieni/staff ac yn y blaen.
- Cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer gwibdeithiau ac ymweliadau'r ysgol, digwyddiadau, ac ati.

Gweinyddu

- Darparu cefnogaeth weinyddol/glerigol gyffredinol e.e. llungopïo, ffeilio, ffacsio, llenwi ffurflenni safonol, ymateb i ohebiaeth bob dydd
- Cynnal systemau cofnodi/gwybodaeth reoli, â llaw ac ar gyfrifiadur
- Cynhyrchu rhestrau/gwybodaeth/data yn ôl y galw e.e. data disgyblion
- Ymgymryd â theipio a phrosesu geiriau a thasgau eraill TG-seiliedig
- Cymryd nodiadau mewn cyfarfodydd
- Didoli a dosbarthu'r post
- Ymgymryd â threfniadaethau gweinyddol
- Cadw a chasglu cofnodion perthnasol i'r disgyblion
- Ymgymryd â gweinyddiaeth arferol rhoi rhannau o'r ysgol ar osod, ac unrhyw ddefnydd arall o adeiladau a thiroedd yr **ysgol**

Adnoddau

- Defnyddio offer/pecynnau TGCh perthnasol (e.e. Word, Excel, cronfeydd data, taenlenni, y rhyngrwyd
- Cynnal a chadw stoc a nwyddau, catalogio a dosbarthu yn ôl y gofyn

- Gweithredu 'siopau' dillad ysgol/byrbrydau/amrywiol yn yr ysgol
- Rhoi cyngor ac arweiniad cyffredinol i aelodau o'r staff, disgyblion, ac eraill
- Ymgymryd â gweinyddu materion ariannol cyffredinol e.e. prosesu archebion

Cyfrifoldebau

- Bod yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol
- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau cyfle cyfartal i bawb
- Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol
- Gwerthfawrogi a chefnogi swyddogaeth y gweithwyr proffesiynol eraill
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw, a chymryd rhan ynddynt
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill a datblygu perfformiad yn ôl y gofyn

MANYLEB PERSON

	HANFODOL	DYMUNOL
CYMWYSTERAU	• Addysgwyd hyd at TGAU neu gyfatebol (lefel 2)	• Cymwysterau Teipio a/neu Brosesu Geiriau • Cymhwyster Cymorth Cyntaf
PROFIAD	• Gwybodaeth cyffredinol am weinyddu a threfniadau swyddfa • Gwaith cyffredinol clerigol/gweinyddol/cyllidol • Defnydd effeithiol o TGCh • Defnydd o Outlook a Word • Gwybodaeth briodol am gymorth cyntaf	• Gwybodaeth am systemau rheoli gwybodaeth (Bromcom) • Profiad o weinyddu a mewnbynnu data • Defnydd o becynnau Microsoft Excel, Canva, Wordpress
SGILIAU A RHINWEDDAU PERSONOL	• Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg • Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion • Sgiliau TGCh da • Sgiliau rhyngbersonol da • Sgiliau rhifedd a llythrennedd da • Ymagwedd drefnus at waith • Y gallu i weithio yn annibynnol ac fel aelod o dîm • Y gallu i gadw cyfrinachedd	• Y gallu a'r parodrwydd i hybu proffil yr Ysgol o fewn y gymuned leol a chenedlaethol • Gwybodaeth o bolisïau/codau ymarfer perthnasol, ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol.
ERAILL	• Gwiriad DBS manwl	

DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR CEREDIGION
Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.

GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion Addysg | Ceredigion County Council Careers

CYFWELD

Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef **yr wythnos yn cychwyn 23 Tachwedd 2026.**

Dyddiad cau: **22 Tachwedd 2026**

CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.

Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.



Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 12,250, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.